# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **24 Hydref 2017** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Gareth Thomas** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Debbie Anne Williams Jones** |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | **32489** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Strategaeth Iaith Uwchradd Gwynedd** |

### 1 Y PENDERFYNIAD A GEISIR

**i.** I fabwysiadu Strategaeth Iaith Uwchradd Gwynedd fel dogfen sydd yn gosod cyfeiriad strategol a disgwyliadau clir i holl ysgolion uwchradd y sir i ddylanwadu'n gadarnhaol ar ddefnydd cymdeithasol disgyblion o'r Gymraeg y tu mewn a thu allan i'r ysgol.

**ii.** Ymrwymo £120,000 ychwanegol o'r Gronfa Trawsffurfio (£40,000 y flwyddyn am y dair blynedd 2018/19 – 2020/21) er mwyn ariannu swydd Cydlynydd Strategaeth Iaith Uwchradd Gwynedd i arwain ar gynnydd pellach yn nefnydd cymdeithasol a chwricwlaidd disgyblion o'r Gymraeg.

### 2 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Mae gwireddu gweledigaeth ac amcanion Strategaeth Iaith Uwchradd Gwynedd wedi ei gynnwys yng Nghynllun y Cyngor 2018-23. Mae llunio a gweithredu gofynion y Strategaeth Iaith Uwchradd yn ymateb yn uniongyrchol i'r galw ymhlith ysgolion cynradd ac uwchradd y sir, ynghyd ag Aelodau Etholedig i weld dilyniant i'r Siarter Iaith yn yr ysgolion cynradd, gan sicrhau cynnydd pellach yn nefnydd cymdeithasol a chwricwlaidd pobl ifanc o'r Gymraeg.

Mae angen ymrwymiad o adnoddau ychwanegol dros gyfnod o dair blynedd er mwyn gwireddu amcanion y Strategaeth, gan allu darparu cefnogaeth arbenigol i ysgolion uwchradd y sir dros gyfnod. Mae'r cais am adnoddau ychwanegol wedi ei sylfaenu ar yr un ymrwymiad o adnoddau ac a roddwyd i sefydlu'r Siarter Iaith yn yr ysgolion cynradd, drwy ariannu swydd Cydlynydd dros gyfnod o dair blynedd.

## 3 CYFLWYNIAD

Pwrpas y prosiect hwn yw sicrhau dilyniant cadarn ac adeiladu ar lwyddiant prosiect arloesol y Siarter Iaith sydd yn weithredol yn ysgolion cynradd Gwynedd, ac sydd bellach wedi cael ei ledaenu yn genedlaethol. Ar gais Llywodraeth Cymru, yn dilyn adroddiadau cadarnhaol am lwyddiant y Siarter yng Ngwynedd, gofynnwyd i gael defnyddio arbenigedd ac arferion da Gwynedd er mwyn ymestyn y prosiect i ardaloedd eraill yng Nghymru.

Er mwyn sicrhau dilyniant cadarn i'r prosiect Siarter Iaith Cynradd, a pharhau i wella sgiliau iaith Gymraeg ein pobl ifanc, datblygwyd y Strategaeth Iaith Uwchradd er mwyn rhoi arweiniad clir ar sut i fynd ati i gynllunio ymyrraeth er mwyn gwella ymwybyddiaeth a chynyddu defnydd o'r iaith ymysg pobl ifanc yn yr uwchradd.

Mae'r Strategaeth yn canolbwyntio ar y Gymraeg ac Addysg, ac yn cwmpasu elfennau cwricwlaidd yn ogystal â defnydd cymdeithasol o'r iaith. Mae pedwar prif faes y mae'r Strategaeth yn ceisio ymateb iddynt:

- Cymraeg Iaith Gyntaf
- Cymraeg Ail Iaith
- Y Gymraeg fel cyfrwng
- Defnydd cymdeithasol pobl ifanc o'r Gymraeg

Seilir y cyd-destun a'r cyfeiriad ar nifer o ddogfennau polisi allweddol, a chydnabyddir fod nifer o gynlluniau eisoes yn weithredol yn y meysydd hyn mewn nifer o ysgolion yng Ngwynedd a thu hwnt, megis:

- Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg
- Adroddiad Ymchwiliad Craffu Addysg Gymraeg
- Adroddiad Astudiaeth Alun Charles
- Prosiect Cefnogi Arferion Iaith ysgolion uwchradd (PCAI)
- Strategaeth iaith Gwynedd 2014-2017
- Adroddiad Trywydd – Cynyddu defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg gan blant a phobl ifanc ysgolion uwchradd Gwynedd.
- Cymraeg 2050
- Fframwaith ar gyfer cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg gan blant a phobl ifanc
- Adolygiad Donaldson ' Dyfodol Llwyddiannus'
    - Argymhellion rhfiau 21-30 – Y Gymraeg
    - Argymhelliad rhif 62 – Perchnogaeth

Ceir copi o'r Strategaeth Iaith Uwchradd yn Atodiad Un.

Ers Ebrill 2017, penodwyd Cydlynydd, ar secondiad o'r Ganolfan Iaith Uwchradd ym Mhorthmadog - person sydd yn meddu ar arbenigedd a hygrededd ymysg penaethiaid yr ysgolion uwchradd, gan allu dwyn perswâd a'u herio'n briodol - i arwain y Strategaeth Iaith Uwchradd.

Ers penodi'r Cydlynydd, cyflawnwyd y canlynol:

- llunio'r Strategaeth Iaith Uwchradd ar y cyd gyda gweithgor o blith penaethiaid ysgolion uwchradd Gwynedd;
- cynllun gweithredu unigryw wedi eu llunio gan bob ysgol uwchradd mewn ymateb i amcanion y Strategaeth Iaith,
- cyfarfodydd a thrafodaethau rhwng y Cydlynydd a staff nifer o'r ysgolion uwchradd wedi eu cynnal;
- partneriaeth o'r newydd wedi ei sefydlu efo hunaniaith er mwyn ymateb yn benodol i ddwy amcan yn y strategaeth, sef:
    - pobl ifanc
    - yr ysgol a'r gymuned.

Yn ystod y tair blynedd nesaf, bydd y Cydlynydd yn gyfrifol am:

- Gefnogi ymhellach yr 14 ysgol uwchradd i weithredu prif flaenoriaethau'r Strategaeth
- Llunio a gweithredu rhaglenni hyfforddiant cynhwysfawr i athrawon uwchradd ym methodolegau addysgu a dysgu dwyieithog
- Hyrwyddo ymhellach gwerth a manteision a defnyddioldeb dwyieithrwydd er mwyn cryfhau cymhelliant disgyblion i ddatblygu'n bersonau hyfedr yn y ddwy iaith
- Llunio a gweithredu trefniadau monitro effeithiol o weithrediad y strategaeth.

## 4 RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Byddai derbyn yr adnodd ychwanegol gan y Cyngor yn caniatáu parhad a dilyniant cadarn i'r prosiect am dair blynedd, ac yn sicrhau bod Gwynedd yn parhau i arwain ar waith arloesol ar draws y Gogledd ac yn genedlaethol.

## 5 CAMAU NESAF AC AMSERLEN

O dderbyn penderfyniad y Cabinet i fabwysiadu'r Strategaeth Iaith Uwchradd hon, daw'r strategaeth yn ddogfen weithredol y bydd pob ysgol uwchradd yn atebol am ei gweithredu, a'r canlyniadau a ddeisyfir yn sgil hynny.

Bydd angen parhad o'r adnodd ychwanegol o £40,000 am gyfnod o dair blynedd er mwyn gweithredu'r Strategaeth Iaith Uwchradd yn effeithiol o 1 Ebrill 2018 ymlaen.

## 6 UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

**Barn y Swyddogion Statudol:**

**i. Swyddog Monitro:**

Mae'r strategaeth yma wedi ei datblygu mewn cyd-weithrediad agos ag ysgolion uwchradd y sir sydd yn gadarnhaol o safbwynt eu hymrwymiad i gyflawni ei ofynion ac amcanion. Dim sylwadau pellach o safbwynt

priodoldeb.

**ii. Y Pennaeth Cyllid:**

Bydd sawl angen / defnydd haeddiannol yn cystadlu am adnodd prin y Gronfa Trawsffurfio, a mater i aelodau'r Cabinet fydd blaenoriaethu'r ceisiadau perthnasol.

**iii. Barn yr Aelod Lleol:**
Nid yw'n fater lleol.

**iv. Ymgynghoriadau:**
Mae'r Strategaeth Iaith Uwchradd wedi bod gerbron y Grŵp Cynllunio Strategol Uwchradd ar sawl achlysur yn ystod y flwyddyn. Yn ogystal, cyflwynwyd fersiwn ddrafft gerbron y Grŵp am sylwadau ar 21 Medi 2017, ble derbyniwyd cefnogaeth gan yr holl benaethiaid i'r Strategaeth Iaith Uwchradd.

Rhoddwyd cyflwyniad ar brif amcanion y Strategaeth Iaith Uwchradd gerbron y Pwyllgor Iaith ar 28 Chwefror 2017.

Bu'r Strategaeth Iaith Uwchradd gerbron y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar 26 Medi 2017, ac mae'r sylwadau a dderbyniwyd gan y craffwyr eisoes wedi eu hymgorffori yn y Strategaeth Iaith Uwchradd sydd gerbron.